# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **4 Medi 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd N.Goldup-John** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, J.Hale, M.Harvey, J.Henton, A.R.Lockyer, P.Rogers, C.Williams a/ac S.Thomas |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran, T.Rees a/ac P.Chivers |

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023 fel cofnod gwir a chywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drosolwg o'r Flaenraglen Waith sy'n cynnwys eitemau safonol sy'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol Cymru a materion eraill i'w hystyried. Atgoffwyd yr aelodau y dylai unrhyw faterion penodol pellach y gallai'r aelodau fod eisiau eu hychwanegu at y rhaglen gael eu hysbysu i Gadeirydd y Pwyllgor, y Gwasanaethau Democrataidd neu eu codi drwy'r cyfarfod hwn.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

4. **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2022-2023</u>**

Dywedodd yr aelodau fod y Cyng. P Rogers a'r Cyng. W Carpenter ar goll o restr aelodau'r pwyllgor yn yr adroddiad blynyddol. Bydd y gwall hwn yn cael ei gywiro gan swyddogion.

**Penderfynwyd ar y canlynol: Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022/23 a atodir yn Atodiad 1 ac yn ei gymeradwyo i'r cyngor.**

5. **<u>RHAGLEN HYFFORDDI AELODAU DRAFFT</u>**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth yr aelodau fod gan y cyngor ofyniad cyfreithiol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau etholedig. Darparwyd crynodeb o'r adroddiad a'r rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau ar gyfer 2023/2024. Mae rhaglen hyfforddi CLlLC wedi'i chynnwys yn y pecyn agenda ac mae'n ategu Rhaglen Hyfforddi a Datblygu'r Aelodau.

**Penderfynwyd: Y bydd yr aelodau'n cymeradwyo'r Rhaglen Datblygu a Hyfforddi ddrafft ar gyfer aelodau (a'r atodlen) ar gyfer 2023/24 sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.**

6. **<u>WYTHNOS DEMOCRATIAETH LEOL</u>**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drosolwg o'r adroddiad a gynhwyswyd yn y pecyn agenda.

Gofynnodd yr aelodau pa mor effeithiol oedd y Panel Dinasyddion; pa mor aml mae'n cyfarfod ac ym mha fforwm. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y cysylltir â'r panel yn gyffredinol i gael eu barn drwy arolygon a bod gwybodaeth yn cael ei hanfon yn ôl drwy e-bost at y swyddog perthnasol.  Gellid ceisio adborth ar bolisïau a threfniadau newydd arfaethedig gan y panel yn ôl yr angen cyn datblygu polisi. Dywedodd yr aelodau fod yna gyfyngiad ar nifer yr amseroedd yn flynyddol y gellir cysylltu ag aelodau'r panel.

Nodwyd yr eitem hon.

7. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**